Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFYNEDIG
# GAN
# LLYWODRAETH CYRMU

**TEITL:** **Cyhoeddi adroddiad yn dilyn Adolygiad Annibynnol o Swyddogaethau a Rôl Comisiynydd Plant Cymru.**

**DYDDIAD:** **10 Rhagfyr 2014**

**GAN:** **Lesley Griffiths AC, Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**

Heddiw, rwyf wedi derbyn adroddiad yr Adolygiad Annibynnol o Rôl a Swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru gan Dr Mike Shooter.

Atodir copi o’r adroddiad ynghyd â fersiwn arbennig i bobl ifanc, gyda’r Datganiad hwn. Mae'r adroddiad yn cynnwys cyfres o argymhellion eang ar gyfer Llywodraeth Cymru. Byddaf yn ystyried y rhain yn fanylach  gyda’r nod o wneud datganiad arall,  yn y Flwyddyn Newydd.

Hoffwn ddiolch i Dr Shooter am arwain yr adolygiad a diolch i'r Comisiynydd Plant presennol a'i swyddfa, yn ogystal â’r nifer sylweddol o rhanddeiliaid, gan gynnwys plant a phobl ifanc, am eu cyfraniad rhagweithiol i'r adolygiad. Mae hyn yn dystiolaeth o’r ffaith ein bod oll yn gweithio tuag at yr un nod, sef cael Comisiynydd Plant i Gymru sydd mor gryf ac effeithiol â phosibl, a fydd yn hyrwyddwr dros ein plant a phobl ifanc.

http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/rights/commissioner/review-of-childrens-commissioner/?skip=1&lang=cy